

# Recriwtio a Chynorthwyo Gwirfoddolwyr

Un Llais Cymru
One Voice Wales

## Cip cyflym :

Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan hanfodol mewn cryfhau cymunedau a chyfoethogi bywyd dinesig. Drwy ymgysylltu â gwirfoddolwyr mewn ffordd ystyrlon, gall cynghorau nid yn unig yn wella eu digwyddiadau a phrosiectau ond hefyd gyfrannu at amcanion ehangach llesiant a chydlyniant cymunedol

### Egwyddorion Gwirfoddoli Da

- **Dewis:** Mae gwirfoddoli yn cael ei wneud o'ch gwirfodd
- **Cynhwysiant:** Ar agor i bawb
- **Cydnabyddiaeth:** Mae gwirfoddolwyr yn cael eu gwerthfawrogi
- **Cymorth:** Mae gwirfoddolwyr yn derbyn canllawiau ac adnoddau

## Pam cynnwys gwirfoddolwyr?

IMae cynnwys gwirfoddolwyr yn cryfhau cymunedau drwy ddod â phobl at ei gilydd i rannu eu hamser, eu sgiliau a'u hangerdd dros fywyd lleol. Mae gwirfoddolwyr yn helpu cynghorau i gyflawni mwy i drigolion, dod â syniadau ac egni newydd, ac adeiladu ymdeimlad cryfach o berthyn a balchder yn y gymuned.
Drwy weithio ochr yn ochr â gwirfoddolwyr, gall cynghorau ymestyn eu cyrhaeddiad, gwella prosiectau lleol, a sicrhau bod gwasanaethau cymunedol yn wirioneddol adlewyrchu anghenion a chryfderau pobl leol.

## Dechrau arni

Mae gwirfoddolwyr yn dod â sgiliau gwerthfawr, egni a mewnwelediad lleol — ond i ffynnu, mae angen eglurder, cefnogaeth a gwerthfawrogiad arnyn nhw

✅ Penderfynwch ble gall gwirfoddolwyr helpu (e.e. trefnu digwyddiadau, plannu coed, helpu mewn hybiau cymunedol).

✅ Cytunwch ar amcanion clir ar gyfer eu cyfranogiad.

✅ Ystyriwch risgiau, yswiriant, GDPR ac anghenion diogelu o'r cychwyn cyntaf.

✅ Mae Canllawiau a Pholisïau Enghreifftiol ar gael ar wefan **CGGC**

✅ Cysylltwch â'ch **Cyngor Gwirfoddol Siro** am gefnogaeth a chyngor.

## Recriwtio

- Dechreuwch drwy ddiffinio rolau gwirfoddolwyr yn glir a'r gwahaniaeth y byddant yn ei wneud yn y gymuned.
- Defnyddiwch gymysgedd o sianeli, cylchlythyrau, hysbysfyrddau, cyfryngau cymdeithasol, gwefannau'r cyngor a digwyddiadau lleol, i gyrraedd pobl.
- Mae gwahoddiadau personol a gair yn mynd ar led yn aml yn fwyaf effeithiol, felly dywedwch wrth y cynghorwyr a'r gwirfoddolwyr presennol i ddefnyddio eu rhwydweithiau.
- Cadwch brosesau cofrestru yn syml ac yn hygyrch fel bod cymryd rhan yn hawdd.

Platfform ar-lein yw **Volunteens** sy'n cysylltu pobl ifanc, rhieni ac addysgwyr â chyfleoedd gwirfoddoli.

Mae **Gwirfoddoli Cymru** yn cysylltu gwirfoddolwyr â sefydliadau sydd eu hangen

### Diogelu

Mae creu amgylchedd diogel a chroesawgar, lle mae pawb yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi, wrth wraidd diogelu.
Dylid teilwra polisïau diogelu i anghenion penodol pob cyngor a dylent fod yn uniongyrchol berthnasol i'r gweithgareddau a'r gwasanaethau a ddarparant, gan sicrhau amddiffyniad effeithiol i bob cyfranogwr.

Mae gan yr **NCVO** lawer o ganllawiau ar sut i wneud Diogelu yn dda.

## Gwybodaeth Ddefnyddiol

[Cyrsiau Ar-lein Am ddim CCGSG]

[Y Dull Newydd o Wirfoddoli]

[Gweithdrefnau Diogelu Cymru]

## Cydnabod a Chadw Gwirfoddolwyr

Mae cydnabod cyfraniadau gwirfoddolwyr yn hanfodol i gynnal cymhelliant, meithrin teyrngarwch, ac adeiladu ymdeimlad o berthyn. Nid oes angen i gydnabyddiaeth fod yn ffurfiol nac yn gostus bob amser, mae'n ymwneud â gwerthfawrogiad a gwirfoddolwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gweld.. O nodyn, bathodyn neu gerdyn diolch wedi'i ysgrifennu â llaw i wobrau gwirfoddolwyr blynyddol i nodi cerrig milltir allweddol neu wasanaeth eithriadol, mae'n bwysig cydnabod gwaith ac ymroddiad gwirfoddolwyr.

Mae cadw gwirfoddolwyr yn dibynnu ar greu profiad gwirfoddoli cadarnhaol, cynhwysol a phwrpasol. Mae gwirfoddolwyr yn aros pan fyddant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u bod yn cael effaith. Mae darparu gwerthfawrogiad rheolaidd, cyfathrebu da a chyfleoedd i ddatblygu yn helpu i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn frwdfrydig ac yn ymrwymedig.

[Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr Safon Ansawdd]

### Cyllid a Phwerau

Mae pob cyngor cymuned yng Nghymru yn gorfod cael grymoedd cyfreithiol penodol sy'n eu galluogi i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth amrywiol i'w cymunedau lleol.

Gall grymoedd a chyfiawnhadau wahaniaethu, a dylai cynghorau ystyried eu hamgylchiadau penodol nhw. Er mwyn cael cyngor ac arweiniad, efallai yr hoffai cynghorau gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru. gweinydd@unllaiscumru.cymru

## Enghreifftiau o Arfer Da


Mae Prydau ar Glud Cyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn yn cael eu darparu gan wirfoddolwyr

Cefnogir Clwb Cinio wythnosol Cyngor Cymuned Llannon gan wirfoddolwyr

Mae gwirfoddolwyr yn hanfodol i ddarpariaeth Hyb Cymunedol Cyngor Tref y Trallwng

Mae Cyngor Tref Blaenafon yn cynnal Gwobrau Dinesig blynyddol sy'n cydnabod ac yn dathlu eu cymuned

Mae Cyngor Gweithredu Ieuenctid Cyngor Tref Penarth yn cymryd rhan mewn prosiectau a gweithgareddau i wneud pethau'n well i bobl ifanc yn eu cymuned.






[Gwyliwch ein gwirfoddolwyr yn rhannu beth sy'n gwneud gwirfoddoli'n ystyrlon]

## Gwybodaeth am Gyllid a Chyfleoedd Posib

[Arian i Bawb Y Loteri Genedlaethol Cymru]

[Grantiau Gwirfoddoli Cymru]

[Mae Un Llais Cymru yn cynnig modiwl hyfforddiant ar 'Gwneud ceisiadau effeithiol am grantiau']

**Eisiau Gwybod Mwy?**

Er mwyn cael gwybod mwy am brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:

CoLC@onevoicewales.wales

https://bit.ly/3KYHftK

Un Llais Cymru